Argraffwyd yr Offeryn Statudol hwn yn lle'r OS sy'n dwyn yr un rhif ac fe'i dyroddir yn rhad ac am ddim i bawb y gwyddys iddynt gael yr Offeryn Statudol hwnnw.

This Statutory Instrument has been printed in substitution of the SI of the same number and is being issued free of charge to all known recipients of that Statutory Instrument.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2014 Rhif 2677 (Cy. 265)

2014 No. 2677 (W. 265)

ADDYSG, CYMRU

EDUCATION, WALES

Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Datblygu Ysgolion) (Cymru) 2014

The Education (School Development Plans) (Wales) Regulations 2014

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir. Maent yn gosod dyletswydd ar y corff llywodraethu i lunio cynllun datblygu ysgol er mwyn ei gynorthwyo i arfer ei gyfrifoldeb am gynnal ysgol a gynhelir gyda golwg ar hybu safonau uchel o gyflawniad addysgol (rheoliad 3). Nid yw'r ddyletswydd honno yn effeithio ar egwyddorion cyffredinol a rolau a chyfrifoldebau priodol cyrff llywodraethu a phenaethiaid a nodir yn Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion (Cylch Gwaith) (Cymru) 2000 (rheoliad 3(2)). Mae cynnwys y cynllun wedi ei nodi yn yr Atodlen (rheoliad 4).

Mae cynllun datblygu'r ysgol yn cael effaith am gyfnod o dair blynedd (rheoliad 5). Rhaid i'r corff llywodraethu ei ddiwygio'n flynyddol ac yn dilyn arolygiad gan Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (rheoliad 6).

Mae rheoliad 7 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â chyhoeddi ac mae rheoliad 8 yn darparu bod rhaid i'r corff llywodraethu, wrth iddo lunio cynllun datblygu'r ysgol, roi sylw i wybodaeth am berfformiad yr ysgol. Mae rheoliad 9 yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff llywodraethu ymgynghori â'r personau hynny a ragnodir.

Mae diwygiadau canlyniadol i'r canlynol—

(i) Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymhwyso Deddfiadau) (Cymru) 2007 (rheoliad 10);

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations apply to governing bodies of maintained schools. They impose a duty on the governing body to draw up a school development plan in order to assist it to exercise its responsibility for conducting a maintained school with a view to promoting high standards of educational achievement (regulation 3). That duty does not affect the general principles and respective roles and responsibilities of governing bodies and head teachers set out in the School Government (Terms of Reference) (Wales) Regulations 2000 (regulation 3(2)). The content of the plan is set out in the Schedule (regulation 4).

The school development plan has effect for a three year period (regulation 5). The governing body must revise it annually and following an inspection by Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales (regulation 6).

Regulation 7 makes provision in relation to publication and regulation 8 provides that in drawing up the school development plan the governing body must have regard to school performance information. Regulation 9 requires the governing body to consult with those persons prescribed.

There are consequential amendments to—

(i) the Education (Pupil Referral Units) (Application of Enactments) (Wales) Regulations 2007 (regulation 10);

(ii) Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) 2011 (rheoliad 11); a

(iii) Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2011 (rheoliad 12).

(ii) the School Governors' Annual Reports (Wales) Regulations 2011 (regulation 11); and

(iii) the School Teacher Appraisal (Wales) Regulations 2011 (regulation 12).

2014 Rhif 2677 (Cy. 265)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Datblygu Ysgolion) (Cymru) 2014

Gwnaed	*1 Hydref 2014*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru	*6 Hydref 2014*
Yn dod i rym	*27 Hydref 2014*

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau yn adrannau 19 a 54(3) a (4) o Ddeddf Addysg 1997(**1**) ac adrannau 537 a 569(4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996(**2**) a pharagraff 3 o Atodlen 1 iddi ac yn adrannau 21(3), 30(1) a (2), 131 a 210 o Ddeddf Addysg 2002(**3**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**4**), ac ar ôl

(**1**) 1997 p. 44. Amnewidiwyd is-adran (3) o adran 19 o Ddeddf Addysg 1997 gan baragraff 213 o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p. 31).

(**2**) 1996 p. 56. Diwygiwyd adran 537 gan baragraff 37 o Atodlen 7 i Ddeddf Addysg 1997, paragraffau 57 a 152 o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, paragraffau 1 a 60 o Atodlen 9 i Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 (p.21), Rhan 3 o Atodlen 22 i Ddeddf Addysg 2002 (p.32) a chan O.S. 2010/1158. Diwygiwyd adran 569(4) gan adran 8(1) a (5) o Fesur Addysg (Cymru) 2009 (mccc 7).

(**3**) 2002 p. 32. Diwygiwyd is-adrannau (1) a (2) o adran 30 gan Ddeddf Addysg 2005 (p. 18), adran 103(1)(a). Diwygiwyd is-adran (3) gan O.S. 2010/1158. Diwygiwyd adran 131 gan O.S. 2005/3238 (Cy. 243), O.S. 2010/1080 ac O.S. 2010/1158.

(**4**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adrannau 19 a 54 o Ddeddf Addysg 1997 ac adrannau 63 a 138 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32). Rhoddwyd pwerau Deddf Addysg 1996 a Deddf Addysg 2002 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'u trosglwyddwyd i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

2014 No. 2677 (W. 265)

EDUCATION, WALES

The Education (School Development Plans) (Wales) Regulations 2014

Made	*1 October 2014*
Laid before the National Assembly for Wales	*6 October 2014*
Coming into force	*27 October 2014*

The Welsh Ministers in exercise of the powers in sections 19 and 54(3) and (4) of the Education Act 1997(**1**) and sections 537 and 569(4) and (5) of, and paragraph 3 of Schedule 1 to, the Education Act 1996(**2**) and in sections 21(3), 30(1) and (2), 131 and 210 of the Education Act 2002(**3**) and now vested in them(**4**), and after consulting in accordance with

(**1**) 1997 c. 44. Sub-section (3) of section 19 of the Education Act 1997 was substituted by paragraph 213 of Schedule 30 to the School Standards and Framework Act 1998 (c. 31).

(**2**) 1996 c. 56. Section 537 was amended by paragraph 37 of Schedule 7 to the Education Act 1997, paragraphs 57 and 152 of Schedule 30 to the School Standards and Framework Act 1998, paragraphs 1 and 60 of Schedule 9 to the Learning and Skills Act 2000 (c. 21), Part 3 of Schedule 22 to the Education Act 2002 (c. 32) and by S.I. 2010/1158. Section 569(4) was amended by section 8(1) and (5) of the Education (Wales) Measure 2009 (nawm 7).

(**3**) 2002 c. 32. Sub-sections (1) and (2) of section 30 were amended by the Education Act 2005 (c. 18), section 103(1)(a). Sub-section (3) was amended by S.I. 2010/1158. Section 131 was amended by S.I. 2005/3238 (W. 243), S.I. 2010/1080 and S.I. 2010/1158.

(**4**) The functions of the Secretary of State in sections 19 and 54 of the Education Act 1997 and sections 63 and 138 of the School Standards and Framework Act 1998 were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) and then to the Welsh Ministers by paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c. 32). The powers in the Education Act 1996 and the Education Act 2002 were conferred upon the National Assembly for Wales and transferred to the Welsh Ministers by paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006.

ymgynghori yn unol ag adran 131(7) o Ddeddf Addysg 2002 ag unrhyw gymdeithasau awdurdodau lleol yng Nghymru, awdurdodau lleol yng Nghymru, cyrff sy'n cynrychioli buddiannau cyrff llywodraethu yng Nghymru a chyrff sy'n cynrychioli buddiannau athrawon yng Nghymru y mae'n ymddangos iddynt eu bod yn briodol, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Datblygu Ysgolion) (Cymru) 2014 a deuant i rym ar 27 Hydref 2014.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "asesiadau athrawon" ("*teacher assessments*") yw asesiadau o ddisgyblion a gynhelir gan athrawon at ddiben penderfynu ar lefel y cyrhaeddiad y maent wedi ei chyrraedd yn unol â darpariaeth asesu a wneir gan neu o dan orchmynion a wneir o dan adran 108(2)(b)(iii) a (3)(c) o Ddeddf Addysg 2002;

ystyr "blaenoriaethau cenedlaethol" ("*national priorities*") yw—

(a) codi safonau addysg mewn perthynas â llythrennedd a rhifedd; a

(b) lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol;

ystyr "blaenoriaethau gwella'r ysgol" ("*school improvement priorities*") yw'r meysydd hynny o ran safon yr addysg yn yr ysgol a nodir gan y corff llywodraethu fel y rhai â'r angen mwyaf am welliant;

ystyr "blwyddyn ysgol gyfredol" ("*current school year*") yw'r flwyddyn ysgol gyntaf y mae'r cynllun i gael effaith ar ei chyfer;

ystyr "canlyniadau cyrhaeddiad" ("*attainment results*") yw canlyniadau asesiadau disgyblion a gynhelir gan athrawon at ddiben penderfynu ar lefel y cyrhaeddiad y maent wedi ei chyrraedd yn unol â darpariaeth asesu a wneir gan neu o dan orchmynion a wneir o dan adran 108(2)(b)(iii) a (3)(c) o Ddeddf Addysg 2002;

ystyr "cymwysterau perthnasol a gymeradwywyd" ("*approved relevant qualifications*") yw cymwysterau o fewn ystyr adran 30(5) o Ddeddf Addysg 1997;

ystyr "cynllun datblygu ysgol" ("*school development plan*") yw cynllun a lunnir gan gorff llywodraethu yn unol â'r Rheoliadau hyn;

section 131(7) of the Education Act 2002 such associations of local authorities in Wales, local authorities in Wales, bodies representing the interests of governing bodies in Wales and bodies representing the interests of teachers in Wales as appear to them appropriate, make the following Regulations:

Title, commencement and application

1.—(1) The title of these Regulations is the Education (School Development Plans) (Wales) Regulations 2014 and they come into force on 27 October 2014.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

Interpretation

2.—(1) In these Regulations—

"approved relevant qualifications" ("*cymwysterau perthnasol a gymeradwywyd*") are qualifications within the meaning of section 30(5) of the Education Act 1997;

"attainment results" ("*canlyniadau cyrhaeddiad*") means the results of assessments of pupils carried out by teachers for the purpose of determining the level of attainment they have achieved in accordance with assessment provision made by or under orders made under section 108(2)(b)(iii) and (3)(c) of the Education Act 2002;

"current school year" ("*blwyddyn ysgol gyfredol*") means the first school year for which the plan is to have effect;

"expected outcomes" ("*deilliannau disgwyliedig*") means the beneficial results to the educational performance of pupils at the school as a result of the school improvement targets being met;

"national priorities" ("*blaenoriaethau cenedlaethol*") are—

(a) raising the standards of education in relation to literacy and numeracy; and

(b) reducing the impact of poverty on educational attainment;

"school comparative information" ("*gwybodaeth ysgol gymharol*") means the summary of a school's performance in teacher assessments, approved relevant qualifications and pupil absence rates relative to other schools and provided to the governing body by the Welsh Ministers;

"school development plan" ("*cynllun datblygu ysgol*") means a plan prepared by a governing body in accordance with these Regulations;

ystyr "deilliannau disgwyliedig" ("*expected outcomes*") yw'r canlyniadau buddiol i berfformiad addysgol disgyblion yn yr ysgol o ganlyniad i gyflawni targedau gwella'r ysgol;

ystyr "gwybodaeth ysgol gymharol" ("*school comparative information*") yw crynodeb o berfformiad ysgol mewn asesiadau athrawon, cymwysterau perthnasol a gymeradwywyd a chyfraddau absenoldeb disgyblion o gymharu ag ysgolion eraill ac a ddarperir i'r corff llywodraethu gan Weinidogion Cymru;

ystyr "staff yr ysgol" ("*school staff*") yw'r personau hynny sydd wedi eu cyflogi, neu wedi eu cymryd ymlaen fel arall o dan gontractau cyflogaeth, i weithio yn yr ysgol;

ystyr "targedau gwella'r ysgol" ("*school improvement targets*") yw'r targedau hynny a osodir gan y corff llywodraethu mewn perthynas â gwella perfformiad yr ysgol mewn cysylltiad â blaenoriaethau gwella'r ysgol.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall, mae cyfeiriadau at—

(a) corff llywodraethu yn gyfeiriadau at gorff llywodraethu ysgol a gynhelir;

(b) pennaeth yn gyfeiriadau at bennaeth ysgol a gynhelir.

Y gofyniad i gorff llywodraethu lunio cynllun datblygu ysgol

3.—(1) Rhaid i'r corff llywodraethu lunio cynllun datblygu ysgol yn unol â'r Rheoliadau hyn.

(2) Nid yw dyletswydd y corff llywodraethu i gael cynllun datblygu ysgol yn rhagfarnu effaith egwyddorion cyffredinol a rolau a chyfrifoldebau priodol cyrff llywodraethu a phenaethiaid a nodir yn Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion (Cylch Gwaith) (Diwygio) (Cymru) 2000 (**1**).

Cynnwys cynllun datblygu ysgol

4. Rhaid i gynllun datblygu'r ysgol (neu gynllun diwygiedig) gynnwys darpariaeth sy'n ymdrin â'r materion a nodir yn yr Atodlen.

Y cyfnod y mae cynllun datblygu ysgol i gael effaith ar ei gyfer

5.—(1) Rhaid i'r corff llywodraethu benderfynu ar amseriad cyfnod cynllun datblygu'r ysgol.

(**1**) O.S. 2000/3027 (Cy. 195).

"school improvement priorities" ("*blaenoriaethau gwella'r ysgol*") means those areas of the standard of education at the school identified by the governing body as most in need of improvement;

"school improvement targets" ("*targedau gwella'r ysgol*") means those targets set by the governing body in relation to improving the performance of the school in respect of the school improvement priorities;

"school staff" ("*staff yr ysgol*") means those persons employed, or engaged otherwise under contracts of employment, to work at the school;

"teacher assessments" ("*asesiadau athrawon*") means the assessments of pupils carried out by teachers for the purpose of determining the level of attainment they have achieved in accordance with assessment provision made by or under orders made under section 108(2)(b)(iii) and (3)(c) of the Education Act 2002.

(2) In these Regulations, unless the context otherwise requires, references to—

(a) a governing body are references to the governing body of a maintained school;

(b) a head teacher are references to the head teacher of a maintained school.

Requirement for the governing body to prepare a school development plan

3.—(1) The governing body must prepare a school development plan in accordance with these Regulations.

(2) The governing body's duty to have a school development plan is without prejudice to the general principles and respective roles and responsibilities of governing bodies and head teachers set out in the School Government (Terms of Reference) (Wales) Regulations 2000(**1**).

Content of a school development plan

4. The school development plan (or revised plan) must contain provision dealing with the matters set out in the Schedule.

Duration a school development plan is to have effect

5.—(1) The governing body must determine the timing of the school development plan period.

(**1**) S.I. 2000/3027 (W.195).

(2) Hyd y cyfnod cynllun datblygu ysgol cyntaf fydd tair blynedd a rhaid iddo ddechrau erbyn 1 Medi 2015 fan bellaf.

(3) Hyd y cyfnodau cynllun datblygu ysgol dilynol fydd tair blynedd ac unwaith y bydd cyfnodau cynllun datblygu'r ysgol wedi dechrau rhaid iddynt fod yn barhaus.

Monitro, adolygu a diwygio cynllun datblygu ysgol

6.—(1) Rhaid i'r corff llywodraethu fonitro ac adolygu'r cynnydd a wneir gan yr ysgol yn ystod pob blwyddyn ysgol yn erbyn cynllun datblygu'r ysgol.

(2) Rhaid i'r corff llywodraethu ddiwygio cynllun datblygu'r ysgol—

(a) o leiaf yn flynyddol a beth bynnag erbyn y dyddiad y cafodd cynllun datblygu'r ysgol ei lunio neu ei ddiwygio ddiwethaf fan bellaf; a

(b) yn dilyn arolygiad gan Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn unol ag adran 28 o Ddeddf Addysg 2005(**1**).

Cyhoeddi

7. Rhaid i'r corff llywodraethu gyhoeddi cynllun datblygu'r ysgol drwy roi copïau o'r cynllun i bob aelod—

(a) o'r corff llywodraethu; a

(b) o staff yr ysgol.

Gwybodaeth am berfformiad ysgol

8. Wrth lunio ei gynllun datblygu ysgol rhaid i'r corff llywodraethu roi sylw—

(a) i unrhyw wybodaeth ysgol gymharol; a

(b) i ganlyniadau cyrhaeddiad disgyblion yn yr ysgol.

Ymgynghori

9. Wrth lunio neu ddiwygio cynllun datblygu ysgol rhaid i'r corff llywodraethu ymgynghori â'r canlynol—

(a) pennaeth yr ysgol (os nad yw'r person hwnnw yn aelod o'r corff llywodraethu);

(b) disgyblion cofrestredig yn yr ysgol;

(c) rhieni'r disgyblion cofrestredig;

(d) staff yr ysgol; ac

(**1**) 2005 p. 18.

(2) The length of the first school development plan period will be three years and must begin no later than 1 September 2015.

(3) The length of the subsequent school development plan periods will be three years and once begun school development plan periods must be continuous.

Monitoring, review and revision of a school development plan

6.—(1) The governing body must monitor and review the progress made by the school during each school year against the school development plan.

(2) The governing body must revise the school development plan—

(a) at least annually and in any event no later than the date on which the school development plan was last prepared or revised; and

(b) following an inspection by Her Majesty's Inspectorate for Education and Training Wales pursuant to section 28 of the Education Act 2005(**1**).

Publication

7. The governing body must publish the school development plan by providing copies of the plan to each member of the—

(a) governing body; and

(b) school staff.

School performance information

8. In preparing its school development plan the governing body is to have regard to—

(a) any school comparative information; and

(b) the attainment result of pupils at the school.

Consultation

9. In preparing or revising a school development plan the governing body must consult—

(a) the head teacher of the school (if that person is not a member of the governing body);

(b) registered pupils at the school;

(c) parents of registered pupils;

(d) school staff; and

(**1**) 2005 c. 18.

(e) unrhyw bersonau eraill y mae'r corff llywodraethu yn eu hystyried yn briodol.

Diwygio Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymhwyso Deddfiadau) (Cymru) 2007

10. Yn Rhan 2 o Atodlen 1 i Reoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymhwyso Deddfiadau) (Cymru) 2007(**1**) ar ôl paragraff 15 mewnosoder—

"**Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymhwyso Deddfiadau) (Cymru) 2007**

16. Mae Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymhwyso Deddfiadau) (Cymru) 2007 yn gymwys o ran unedau fel y maent yn gymwys o ran ysgolion a gynhelir."

Diwygio Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) 2011

11. Mae Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) 2011(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn—

(a) ym mharagraff (2) o reoliad 5 yn lle "7 ac 11" rhodder "7, 11 a 19"; a

(b) yn Atodlen 2 ar ôl paragraff 18 mewnosoder—

"**19.** Crynodeb o gynllun datblygu'r ysgol a luniwyd gan y corff llywodraethu yn unol â Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Datblygu Ysgolion) (Cymru) 2014."

Diwygio Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2011

12. Mae Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2011(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn—

(a) yn rheoliad 3(1) yn lle'r diffiniad o "Cynllun Gwella'r Ysgol" rhodder—

"ystyr "Cynllun Datblygu'r Ysgol" ("*School Development Plan*") yw cynllun a lunnir gan y corff llywodraethu yn unol â Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Datblygu Ysgolion) (Cymru) 2014;"; a

(b) yn rheoliad 12(1)(ch), 26(1)(ch) a 39(1)(ch) yn lle "yng Nghynllun Gwella'r Ysgol" rhodder "yng Nghynllun Datblygu'r Ysgol".

(e) such other persons as the governing body considers appropriate.

Amendments to the Education (Pupil Referral Units) (Application of Enactments) (Wales) Regulations 2007

10. In Part 2 of Schedule 1 to the Education (Pupil Referral Units) (Application of Enactments) (Wales) 2007(**1**) after paragraph 15 insert—

"**Education (Pupil Referral Units) (Application of Enactments) (Wales) Regulations 2007**

16. The Education (Pupil Referral Units) (Application of Enactments) (Wales) Regulations 2007 apply in relation to units as they apply in relation to maintained schools."

Amendments to the School Governors' Annual Reports (Wales) Regulations 2011

11. The School Governors' Annual Reports (Wales) Regulations 2011(**2**) are amended as follows—

(a) in paragraph (2) of regulation 5 for "7 and 11" substitute "7, 11 and 19"; and

(b) in Schedule 2 after paragraph 18 insert—

"**19.** A summary of the school development plan prepared by the governing body in accordance with the Education (School Development Plans) (Wales) Regulations 2014."

Amendment to the School Teacher Appraisal (Wales) Regulations 2011

12. The School Teacher Appraisal (Wales) Regulations 2011(**3**) are amended as follows—

(a) in regulation 3(1) for the definition of "School Improvement Plan" substitute—

""School Development Plan" ("*Cynllun Datblygu'r Ysgol*") means a plan prepared by the governing body in accordance with the Education (School Development Plan) (Wales) Regulations 2014;"; and

(b) in regulation 12(1)(d), 26(1)(d) and 39(1)(d) for "School Improvement Plan" substitute "School Development Plan".

(**1**) O.S. 2007/1069 (Cy. 109).
(**2**) O.S. 2011/1939 (Cy. 207) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2013/437 (Cy. 53) ac O.S. 2013/1561 (Cy. 142).
(**3**) O.S. 2011/2940 (Cy. 316).

(**1**) S.I. 2007/1069 (W. 109).
(**2**) S.I. 2011/1939 (W. 207) as amended by S.I. 2013/437 (W. 53) and S.I. 2013/1561 (W. 142).
(**3**) S.I. 2011/2940 (W. 316).

Huw Lewis

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

1 Hydref 2014

Minister for Education and Skills, one of the Welsh Ministers

1 October 2014

YR ATODLEN Rheoliad 4

Cynnwys cynllun datblygu ysgol

Blaenoriaethau gwella'r ysgol

1.—(1) Blaenoriaethau gwella'r ysgol ar gyfer y flwyddyn ysgol gyfredol.

(2) Blaenoriaethau gwella'r ysgol ar gyfer y ddwy flynedd ysgol yn union ar ôl y flwyddyn ysgol gyfredol.

(3) Wrth osod blaenoriaethau gwella'r ysgol rhaid i'r corff llywodraethu ystyried y blaenoriaethau cenedlaethol.

Targedau gwella'r ysgol, deilliannau disgwyliedig a strategaeth

2. Datganiad byr yn nodi targedau gwella'r ysgol a deilliannau disgwyliedig a strategaeth y corff llywodraethu i gyflawni'r targedau hynny.

Strategaeth datblygu proffesiynol

3. Manylion am strategaeth y corff llywodraethu ar gyfer y flwyddyn ysgol gyfredol o ran sut y bydd yn hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff yr ysgol er mwyn cyflawni targedau gwella'r ysgol.

Gweithio gyda'r gymuned

4. Manylion am sut y bydd y corff llywodraethu yn ceisio cyflawni targedau gwella'r ysgol ar gyfer y flwyddyn gyfredol drwy weithio gyda—

(a) disgyblion yn yr ysgol a'u teuluoedd; a

(b) pobl sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardal y mae'r ysgol wedi ei lleoli ynddi.

Staff yr ysgol ac adnoddau'r ysgol

5. Manylion am sut y bydd y corff llywodaethu yn gwneud y defnydd gorau—

(a) o staff presennol yr ysgol ac adnoddau presennol yr ysgol (gan gynnwys ei hadnoddau ariannol) er mwyn cyflawni targedau gwella'r ysgol ar gyfer y flwyddyn ysgol gyfredol; a

(b) o staff yr ysgol ac adnoddau'r ysgol (gan gynnwys adnoddau ariannol) y mae'r corff llywodraethu yn rhag-weld y byddant ar gael iddo er mwyn cyflawni targedau gwella'r ysgol ar gyfer y ddwy flynedd ysgol nesaf yn union ar ôl y flwyddyn ysgol gyfredol.

SCHEDULE Regulation 4

Contents of a school development plan

School improvement priorities

1.—(1) The school improvement priorities for the current school year.

(2) The school improvement priorities for the two school years immediately proceeding the current school year.

(3) In setting the school improvement priorities the governing body must take account of the national priorities.

School improvement targets, expected outcomes and strategy

2. A brief statement setting out the school improvement targets and expected outcomes and the governing body's strategy to meet those targets.

Professional development strategy

3. Details of the governing body's strategy for the current school year as to how it will further the professional development of staff at the school in order to meet the school improvement targets.

Working with the community

4. Details of how the governing body will seek to meet the school improvement targets for the current school year by working with—

(a) pupils at the school and their families; and

(b) people who live and work in the locality in which the school is situated.

School staff and school resources

5. Details of how the governing body will make best use of the—

(a) current school staff and school resources (including its financial resources) to meet the school improvement targets for the current school year; and

(b) school staff and school resources (including financial resources) the governing body anticipates will be available to it to meet the school improvement targets for the next two school years immediately proceeding the current school year.

Targedau blaenorol

6. Datganiad byr yn nodi'r graddau y cafodd targedau gwella'r ysgol eu cyflawni ar gyfer y flwyddyn ysgol flaenorol gan ddechrau gyda blwyddyn ysgol 2015 i 2016 a phan na chawsant eu cyflawni'n llawn esboniad byr yn nodi'r rhesymau dros y methiant hwnnw.

Previous targets

6. A brief statement setting out the extent to which the school improvement targets for the previous school year beginning with school year 2015 to 2016 were met and where they were not met fully a brief explanation as to the reasons for that failure.

© Hawlfraint y Goron 2014

Adargraffiad gywiro

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2014

Corrected reprint

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2014 Rhif 2677 (Cy. 265)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Datblygu Ysgolion) (Cymru) 2014

2014 No. 2677 (W. 265)

EDUCATION, WALES

The Education (School Development Plans) (Wales) Regulations 2014

ISBN 978-0-348-11012-8

9 780348 110128

£6.00

W2100/10/14 ON